



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Llwybrau cronfeydd dŵr  
Reservoir trails



# Alwen - Brenig

// Tirwedd dawel braf yn yr ucheldir  
gyda golygfa dros y dŵr

A peaceful upland landscape with  
views across the water



[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)  
[www.naturalresources.wales](http://www.naturalresources.wales)



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**



**Dŵr Cymru**  
Welsh Water

# Coedwig, dŵr a rhosydd.....

**Croeso i goedwigoedd, cronfeydd enfawr a rhosydd y dirwedd anghysbell hon yn yr ucheldir. Ei henw yw Hiraethog.**

Gallwch gerdded neu feicio ar hyd ffyrdd coedwig a llwybrau pwrpasol.

Cofiwch gadw llygad am fywyd gwyllt lleol fel y boda tinwyn a'r rugiar ddu, y gog a'r gylfingroes. Efallai y byddwch yn ddigon lwcus i weld gwiwer goch neu walch y pysgod.

Gallwch ddarganfod treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog yr ardal, o ffermydd adfeiliedig i domenni claddu hynafol, ac yn ymlacio ar lan y dŵr a mwynhau'r golygfeydd a'r awyr iach.

## ...i chi eu darganfod

Dau lwybr cerdded a beicio cymedrol cysylltiedig sy'n mynd o gwmpas Cronfeydd Dŵr Alwen a Brenig - dyna yw'r llwybrau ag arwyddion a hysbysebir yn y daflen hon.

Gan gychwyn ym maes parcio Argae Alwen neu Ganolfan Ymwelwyr Brenig, bydd cyfres o ffyrdd coedwig a llwybrau graddedig yn eich arwain o lannau'r dŵr i'r rhostir grub agored.

### Ydy'r llwybrau hyn yn addas i chi?

Gall y tywydd newid yn sydyn ac mae'n annhebygol y bydd ffonau symudol yn gweithio - felly cofiwch gario dillad cynnes, dillad glaw, bwyd a diod. Os oes gennych broblemau symudedd dylech fod yn ymwybodol bod rhai darnau o'r llwybrau yn anwastad a rhai darnau serth i'w dringo.



# Forest, water and moors.....

**Welcome to the forests, huge reservoirs and moors of this remote upland landscape, known as Hiraethog.**

Walk or cycle along forest roads and designated trails.

Look out for local wildlife ranging from hen harriers to black grouse, and cuckoos to crossbills. You may even be lucky enough to see a red squirrel or osprey.

Discover the area's rich cultural heritage, from abandoned farmsteads to ancient burial mounds, and relax by the water's edge and take in the scenery and fresh air.

## ...for you to explore

The waymarked trails advertised in this leaflet are two linked moderate walking and cycling trails that circle the Alwen and Brenig Reservoirs.

Beginning from car parks at either the Alwen Dam or the Brenig Visitor Centre, a series of forest roads and graded paths will lead you from shoreline to the open heather moorlands.

### **Are these walks right for you?**

The weather can change suddenly and mobile phones are unlikely to work - so be sure to carry warm clothing, waterproofs, food and drink. For those with mobility problems note that the walks have uneven surfaces and some uphill climbs.



## Llwybr Alwen



Dilynwch yr arwyddion yma



**Pellter:** 7 milltir / 11.5k  
**Amser:** Beicwyr 1½ - 2 awr  
Cerddwyr 2½ - 3½ awr

**Gradd:** Cymedrol

**Uchafbwyntiau:**

Llwybr addas i deuluoedd o amgylch y gronfa, a chyfle i ganfod coedwigoedd a llên gwerin.

**Beicwyr:** yn wrthglocwedd  
**Cerddwyr:** yn glocwedd

## AlwenTrail



Follow these waymarkers



**Distance:** 7 miles / 11.5km  
**Time:** Cyclists 1½ - 2 hours  
Walkers 2½ - 3½ hours

**Grade:** Moderate

**Highlights:**

A family friendly trail around the reservoir, with forests and folklore to discover.

**Cyclists:** anti-clockwise

**Walkers:** clockwise



## Llwybr Alwen

**Llwybr addas i'r teulu o gwmpas y gronfa ddŵr gyda choedwigoedd a llên gwerin.**

**Gallwch ddilyn llwybr ag arwyddion o gwmpas cronfa ddŵr Alwen yn cynnwys chwedlau lleol, fel y Fwch Frech!**

Adeiladwyd y gronfa ddŵr a'r argae rhwng 1909 a 1921 i ddarparu dŵr trwy bibellau i Benbedw. Codwyd 'pentref' pren dros dro gydag ysgol ar gyfer y fyddin o weithwyr a'u teuluoedd. Heddiw mae'r gronfa ddŵr yn cyflenwi cartrefi ledled gogledd ddwyrain Cymru ac yn cynhyrchu tua 5 miliwn galwyn o ddŵr y dydd.

## Alwen Trail

**A family friendly route round the reservoir with forests and folklore.**

**The Alwen reservoir is encircled by a waymarked trail featuring local folktales, like the Fairy Freckled Cow!**

The reservoir and dam were constructed between 1909 and 1921 to provide piped water to Birkenhead. A temporary wooden 'village' with a school was built to house an army of workers and their families. Today the reservoir supplies water to homes across north-east Wales producing about 5 million gallons of water a day.



## Llwybr Brenig

### Dewch i fwynhau'r pedwerydd llyn mwyaf yng Nghymru

**Cronfa ddŵr yw Llyn Brenig ac mae'n un o'r ardaloedd mwyaf o ddŵr mewndirol yng Nghymru. Fe'i hadeiladwyd rhwng 1973 a 1976, ac mae'n helpu i gadw'r afon Dyfrdwy i lifo yn ystod cyfnodau o sychder. Mae hyd at 45m o ddyfnder a gall ddal 61,500 megalitr (1 megalitr = 1 miliwn litr) o ddŵr. Mae pwll nofio Olympaidd yn dal 2.5 megalitr felly gallai'r gronfa lenwi 24,600 o byllau nofio!**

Mae dros 160,000 o ymwelwyr yn dod yma bob blwyddyn a gan ei bod yn un o brif bysgodfeydd pysgota plu y DU, cynhelir cystadlaethau rhyngwladol yma. Mae Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig yn cynnwys caffi, siop bysgota a chanolfan llogi beiciau. Mae tocynnau ar gyfer pysgota yng Nghronfeydd Alwen a Brenig ar gael yn y ganolfan.

Bydd y llwybr, sydd wedi'i raddio'n gymedrol, yn mynd â chi o gwmpas Llyn Brenig a thrwy Warchodfa Gors Maen Llywd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Cofiwch chwilio am fywyd gwyllt eiconig ar y llyn ac yn y coed, ar y rhostir a'r tir pori yn y cyffiniau, gan gynnwys dyfrgwn, ffwlbartiaid, a'r gylfingroes. Efallai y clywch y gog yn y gwanwyn a dechrau'r haf, yn enwedig o'r argae. Gwelir gweilch y pysgod yn aml yn y gwanwyn a'r hydref wrth iddynt fudo ac mae'r safle yn cael ei reoli er mwyn annog gweilch y pysgod i fridio, ac i'r perwyl hwn mae pum llwyfan nythu wedi'u codi.

## Brenig Trail

### Experience the fourth largest lake in Wales

**Llyn Brenig means Brenig Lake, but it's actually a reservoir and one of the largest areas of inland water in Wales. Built between 1973 and 1976, the reservoir helps to keep the River Dee flowing during droughts. It is up to 45m deep and can hold 61,500 megalitres (1 megalitre = 1 million litres). An olympic swimming pool holds 2.5 megalitres so the reservoir could fill 24,600 pools!**

Over 160,000 visitors come here each year and as one of the premier fly fisheries in the UK, it hosts international competitions. The Llyn Brenig Visitor Centre includes a café, fishing shop and bike hire facility. Tickets for fishing the Alwen and Brenig Reservoirs are available from the centre.

This moderate graded route will take you around Llyn Brenig and through the North Wales Wildlife Trust Gors Maen Llywd Reserve. Look out for some iconic wildlife on the lake and in the surrounding woods, heathland and pasture, including otters, polecats, and crossbills. You might hear a cuckoo in spring and early summer, particularly from the dam. Ospreys are frequently seen in spring and autumn on their migration and the site is managed to encourage ospreys to breed, with 5 nesting platforms installed.

## Llwybr Brenig



Dilynwch yr arwyddion yma



**Pellter:** 9½ milltir / 15km

**Amser:** Beicwyr 2 - 2½ awr  
Cerddwyr 3 - 3½ awr

**Gradd:** Cymedrol

**Dringo:** 400tr / 120m

**Uchafbwyntiau:**

Dilynwch y Llwybr poblogaidd hwn, gan wneud y gorau o'r golygfeydd gwych ar draws Hiraethog.

**Beicwyr:** yn wrthglocwedd

**Cerddwyr:** yn glocwedd

## Brenig Trail



Follow these waymarkers



**Distance:** 9½ miles / 15km

**Time:** Cyclists 2 - 2½ hours  
Walkers 3 - 3½ hours

**Grade:** Moderate

**Dringo:** 400ft / 120m

**Highlights:**

Follow this popular trail, taking in fantastic views across Hiraethog.

**Cyclists:** anti-clockwise

**Walkers:** clockwise



## Llwybr y Ddau Llyn



Dilynwch yr arwyddion yma



**Pellter:** 14 milltir/22.5k

**Amser:** Beicwyr 3-4 awr

Cerddwyr 4-5 awr

**Gradd:** Cymedrol

**Uchafbwyntiau:**

Cyfle i fwynhau'r golygfeydd agored ac amrywiol o amgylch Llyn Brenig a Chronfa Alwen.

**Beicwyr:** yn wrthglocwedd

**Cerddwyr:** yn glocwedd

## Two Lakes Trail



Follow these waymarkers



**Distance:** 14 miles/22.5km

**Time:** Cyclists 3-4 hours

Walkers 4-5 hours

**Grade:** Moderate

**Highlights:**

A chance to enjoy the open views and diverse scenery around both Llyn Brenig and the Alwen Reservoir.

**Cyclists:** anti-clockwise

**Walkers:** clockwise



# Allwedd / Map Key

 mynediad rhywydd  
accessible

 gwybodaeth  
information

 parcio  
parking

 toiledau  
toilets


 Golygfan  
viewpoint

 caffi  
café

 llwybrau cerdded  
walking trails

 llwybrau beicio mynydd  
mountain bike trails

 lle picnic  
picnic area



# Cerdded a Beicio Pellach

## Taith Brenig

### Taith gerdded 32 milltir drwy rai o rannau tawelaf Sir Ddinbych

Mae'n dilyn hen lwybrau'r porthmyn, heibio i garneddau hynafol, gan ymlwybro drwy Goedwig Clocaenog lle cewch olygfeydd godidog o Fryniau Clwyd. Gorffennwch drwy ddringo'n raddol, gan ddilyn afon anghysbell Clywedog cyn i chi gyrraedd Llyn Brenig.

Mae modd cysylltu â Llwybr Hiraethog yng Nghoedwig Clocaenog, llwybr pellter hir sy'n cysylltu pentrefi bro Hiraethog, sef Pentrefoelas, Cerrigydrudion, Llanfihangel Glyn Myfyr a Llanrhaeadr gan ddilyn llwybrau cyhoeddus, lonydd tawel a ffyrdd gwledig.

[www.denbighshirecountryside.org.uk/taith-brenig](http://www.denbighshirecountryside.org.uk/taith-brenig)

## Her Hiraethog

### Llwybr beicio mynydd llawn her i'r Betws ac yn ôl

O Gronfa Ddŵr Alwen, mae modd cysylltu â Her Hiraethog, taith beicio mynydd gyffrous sy'n defnyddio cyfuniad o lwybrau ceffylau, tir garw a ffyrdd gwledig.

Cofiwch edrych am yr arwyddion arbennig ar Llwybr Alwen. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y llwybrau cerdded a beicio hyn ac atyniadau eraill yn yr ardal yng Nghanolfan Ymwelwyr Llyn Brenig.

[www.cy.hiraethog.org.uk](http://www.cy.hiraethog.org.uk)



Taith Brenig  
Brenig Way



## Further Walking and Cycling

### Brenig Way

#### **A 32 mile walk through some of the quietest parts of Denbighshire**

It follows former drovers' roads and passes ancient cairns, navigating its way through Clocaenog Forest to reveal stunning views of the Clwydian Range. Finish with a steady, but isolated climb along Afon Clywedog before you reach Llyn Brenig.

It is possible to link with the Hiraethog Trail in Clocaenog Forest, a long distance trail that links the Hiraethog villages of Pentrefoelas, Cerrigydrudion, Llanfihangel Glyn Myfr and Llanrhaeadr via public footpaths, quiet lanes and country roads.

[www.denbighshirecountryside.org.uk/brenig-way](http://www.denbighshirecountryside.org.uk/brenig-way)

### Her Hiraethog

#### **A challenging mountain bike trail to Betws and back**


From the Alwen Reservoir it is possible to link with Her Hiraethog, an exhilarating mountain bike ride which uses a combination of bridleways, rugged terrain and country roads.

Look out for the distinctive waymarkers whilst on the Alwen Trail. You can get more information on these walking and cycling routes and other attractions in the area at the Llyn Brenig Visitor Centre.

[www.hiraethog.org.uk](http://www.hiraethog.org.uk)

Taith Brenig  
Brenig Way





## Am ragor o wybodaeth

Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig, Cerrigydrudion, Conwy, LL21 9TT  
01490 420463

<http://www.facebook.com/llynbrenig>

## For more Information

Llyn Brenig Visitor Centre, Cerrigydrudion, Conwy, LL21 9TT  
01490 420463

<http://www.facebook.com/llynbrenig>

**0300 065 3000**

**[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)**

**[www.naturalresources.wales](http://www.naturalresources.wales)**



Os hoffech yr wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni:

Ffôn: 0300 065 3000

Ebost: [yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

If you would like this information in an alternative format, please contact us:

Phone: 0300 065 3000

Email: [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)



Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®  
Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®

Arwydd o Goeddiadlwyd Cychifid  
The mark of responsible forestry



Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%  
Printed on Revive offset 100% recycled paper